# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 5 Mehefin 2023

Amser: 13.31 - 14.46

Gellir gwylio’r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13369

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o’r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>James Evans AS<br>Peredur Owen Griffiths AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 2 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 2.1 SL(6)359 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 2.2 SL(6)361 – Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Nododd y Pwyllgor hefyd y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Llywydd.

### 2.3 SL(6)360 – Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd. Nododd y Pwyllgor hefyd y datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd.

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 3.1 SL(6)356 – Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 4 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – trafodwyd eisoes

### 4.1 SL(6)357 – Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 5.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

### 5.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

### 5.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Gorchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Diwygio) 2023

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

### 5.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) (Ymadael â'r UE) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth â'r Gweinidog.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Gohebiaeth gan Peter Fox AS: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y Bil Bwyd (Cymru)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Peter Fox AS.

### 6.2 Gohebiaeth gan Peter Fox AS at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Bwyd (Cymru)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Peter Fox AS at y Pwyllgor Cyllid.

### 6.3 Gohebiaeth gan Peter Fox AS at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Ymateb i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y Bil Bwyd (Cymru)

Nododd y Pwyllgor lythyr gan Peter Fox AS at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

### 6.4 Gohebiaeth gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Y Bil Bwyd (Cymru)

Nododd y Pwyllgor lythyr gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Gweinidog.

### 6.5 Gohebiaeth â'r Pwyllgor Busnes: Y Bil Bwyd (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gyda'r Pwyllgor Busnes.

### 6.6 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Datganiad ar gynnydd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

### 6.7 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

### 6.8 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog.

### 6.9 Gohebiaeth gan y Groes Goch Brydeinig: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Groes Goch Brydeinig.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon, a chytunodd i drafod ei adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus: Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd arno.

## 10 Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5) ar y Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) Trafododd y Pwyllgor hefyd yr ohebiaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

## 11 Trafod gohebiaeth mewn cysylltiad â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, a chytunodd i ystyried ei adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 12 Adroddiad monitro

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad monitro diweddaraf.

## 13 Blaenraglen waith

Trafododd y Pwyllgor gylch gorchwyl ar gyfer comisiynu ymchwil ar y defnydd o ddeddfwriaeth fframwaith a'i oblygiadau ar gyfer craffu seneddol, a chytunodd ar y cylch gorchwyl.

**Made Negative Resolution Instruments**

**Made Negative Resolution Instruments**

## Affirmative Resolution Instruments